

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod Nos Fawrth y 10ed o Fehefni 2008.

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr: Ifan Glyn Jones (Cadair), Elwyn Jones-Griffith, Iwan Lloyd Williams, Megan Thomas, Ann Vaughan Jones – Penygroes; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, Richard Evans – Llanllyfni; Harry Wyn Owen, D Martin Williams, Sharon Wynne Owen, Dafydd Glyn Owen – Talysarn; Eurig Wyn Evans – Nebo; Dilwyn Lloyd – Cynghorydd Sir

Gwr Gwadd: Arolygydd Keith Ellis – Heddlu. Cafodd y Cynghorwyr gyfle i holi'r Arolygydd am faterion yn ymwneud a'r heddlu yn yr ardal. Gofynwyd am fwy o bresenoldeb ar y stryd, a dywedodd yr Arolygydd y byddai yn gofyn i'r heddwision gerdded y strydoedd yn amlach. Mae car gan heddwes Penygroes bellach. Rhifau o heddwision ym Mhenygroes yn llawn ar hyn o bryd. Mynegwyd pryder bod yr ardal sydd gan PC Gwyn Hughes i'w wasanaethu yn rhy fawr o lawer, a'i bod yn dasg amhosib iddo edrych ar ol 22 o bentrefi. Trafodwyd pryderon am gyffuriau, gor-yrru yn Trem y Wyddfa, Penygroes-Llanllyfni, Penygroes-Talysarn, hefyd sglefr-fordiau yn Llanllyfni, yfed dan oed ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Mynegwyd pryder bod swydd plismon amaeth yn dod i ben.

Cynllunio

Trafodwyd y ceisiadau cynllunio isod:

- *Hafod Esgob, Y Rhiw, Nebo – estyniad unllawr ochr eiddo ac estyniad deulawr cefn.
- *Y Wern, Pant Du, Penygroes – creu mynedfa a ffordd fynediad.
- *Bryn Teg, Llanllyfni – codi porth ar flaen eiddo.
- *Plot 1 Stad Ddiwydiannol, Penygroes – codi adeilad diwydiannol newydd.

Caniatwyd y ceisiadau cynllunio canlynol gan yr Awdurdod berthnasol:

- *Fron Hyfryd, Nebo – dymchwel strwythur presennol a chodi estyniad deulawr cefn, estynu cwrtil a newidiadau mynediad.
- *Fferm Cae Efa Lwyd Fawr, Penygroes – newid defnydd adeilad allanol amaethyddol i dy.
- *16 Ffordd yr Orsaf, Talysarn – estyniad unllawr cefn.
- *Fferm Bee Hive, Penygroes – adeiladu tri ty.

Gohebiaeth

- *Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd parthed gwarchod trefniadau i ddarparu gwasanaeth mynwentydd. Darllenwyd y llythyr, a phenderfynwyd mai Is-bwyllgor Mynwentydd y Cyngor Cymuned fyddai yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth mynwentydd ar adegau salwch y Clerc.
- *Partneriaeth Talysarn a Nantlle – cynrychiolydd o'r Cyngor ar y pwyllgor. Enwebwyd Martin i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Bartneriaeth Talysarn a Nantlle.
- *Ymgynghoriad ar newidiadau i strwythur GIG Cymru. Y Cadeirydd wedi darllen y ddogfen. Pryder bod ward gyfan yn cael ei chau yn Ysbyty Gwynedd ar benwythnosau. Y Clerc i ysgrifennu at reolwyr Ysbyty Gwynedd yn datgan pryder y Cyngor bod yr ymarferiad yma yn peryglu bywydau, gan bod yr ysbyty dan bwysau i yrru pobl adref, ac efallai heb fod yn ddigon da.
- *Llythyr gan Hywel Williams AS yn gofyn i ddod draw i gyfarfod y Cyngor. Byddwn yn ei wahodd i gyfarfod mis Medi.
- *Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad BT Blychau Ffon. Y Cyngor yn cefnogi cadw blwch ffon Nebo yn agored.

Adroddiadau Pentrefi.

Penygroes:

- *Cae chwarae Cwting – derbyniwyd e-bost yn datgan nad oes sicrwydd y byddai'r iawndal sydd yn daladwy i Gyngor Gwynedd yn cael ei wario ar gael offer newydd ar y cae chwarae. Y Cyngor yn anhapus gyda'r ymateb, ac am gysylltu yn ol gyda Gyngor Gwynedd. Hefyd, roedd cwyn wedi ei

dderbyn ei bod yn anodd mynd i'r cae gyda bygi ddwbl – y Cyngor am edrych os oes posib tynnu'r garreg sydd yn y fynedfa, a rhoi mymryn o darnac i roi gwyneb gadarn.

*Lon ty ol y Co-op. Y Cyngor yn falch o weld y safle wedi ei glirio, a'r problemau gwrthgymdeithasol wedi gwella.

Llanllyfni: Bocs llythyrau Tanrallt – wal wedi ei dynnu a'r bocs wedi mynd – cysylltu a'r Post Brenhinol; Arwydd Neuadd Goffa wedi ei droi – angen ei ail osod a'i sicrhau – y Clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd.

Nantlle: Mainc ger Pont Baladeulyn a mainc yn Sgwar Nantlle angen eu paentio. Cysylltu a Chyngor Gwynedd.

Talysarn: Cefn Ffordd Nantlle ger y Trim Trac – eithin eisiau ei dorri rhag perygl tan i'r tai – cysylltu a Chyngor Gwynedd; Ffordd Bryncelyn – cwyn nad oes lle i barcio oherwydd y llinellau melyn. Y Clerc i gysylltu a Swyddog yng Nghyngor Gwynedd; Bolard ar Ffordd yr Orsaf wedi ei fwrw i lawr; Coed drain wedi tyfu yn ofnadwy o gwmpas cae pel droed Talysarn.